**Nodiadau Cyfarfod grŵp cynefinoedd Trefol a Thir Llwyd**

**25/09/09 1000:1300** yn swyddfa'r Ymddiriedolaeth Natur, Amwythig.

*Presennol: Pete Frost, Jan Sherry, Steve Chambers, David Thorpe, Emily Meilleur, Sorrel Jones, Nigel Ajax Lewis a Margaret Peters.*

| Eitem | **Teitl** | **Gweithgaredd** | **Gweithredu:** |
|---|---|---|---|
| 1 | **Cyflwyniadau a Chroeso** | | |
| 2 | **Ymddiheuriadau a chyflwyno UFA** | ***Derbyniwyd ymddiheuriadau gan Steve Williams, Liz Howe a Margaret Underwood.*** | |
| 3 | **Cofnodion y cyfarfod diwethaf** | Cytunwyd | |
| 4 | **Edrych ar weithredu o'r cyfarfod diwethaf** | Y gweithredu canlynol i'w gario drosodd neu ei ail osod. Y lleill i gyd wedi eu cyflawni: | |
| | *PG4* | **Trefnu ffurf gyffredinol Memorandwm Cytundeb rhwng y Cyngor Cefn Gwlad (CCGC) ac Asiantaeth yr Amgylchedd.** Mae staff cyfreithiol yr Asiantaeth yn edrych ar hyn gan fod problemau'n dal i fod wrth geisio cwblhau'r cytundeb. Cafodd y gweithredu ei gario drosodd er mwyn i Pete gwyno wrth y Cyfarwyddwr Rhanbarthol (Chris Mills) am yr amser hir y mae'n gymryd i wneud hyn. | PF |
| | *PG7* | **Roedd Emily i anfon meini prawf SINC ymlaen i Wynedd a Jan i ofyn am y meini prawf ar gyfer Canolbarth Cymru gan Gareth ym Mharc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog (BBNP.) Y ddwy wedi gweithredu.** Sorrel yn awr i ysgrifennu at bob swyddog CGBLl a Gareth yn BBNP i gael gwybod gan ba Awdurdodau Lleol y mae safleoedd bywyd gwyllt a Chanllawiau Cynllunio Ychwanegol ar gael ar gyfer y safleoedd yma. Hefyd gan ba rai y mae canllawiau safleoedd tir llwyd yn rhai o'r safleoedd yma. | SJ |
| | *PG9* | Nid yw ADAS wedi cwblhau'r diffiniad gweithredol o frithwaith o gynefinoedd agored (OM). Pete i ddosbarthu fersiwn drafft o ddiffiniad cynefinoedd OM a chanllawiau ar gyfer gwneud arolwg maes ohonynt. Fe fydd fersiwn drafft yr adroddiad ar gael i DEFRA a grŵp llywio'r DU ganol Mis Hydref. | PF |
| | *PG11* | **Roedd Dave i leoli rhestri'r pyllau metel a'r safleoedd tirlenwi**. Y gweithredu yma i gael ei gario drosodd ar gyfer y data ôl 1996. Setiau data safleoedd tir wedi ei halogi i gael eu hanfon at Margaret. | DT |
| | *PG12* | **Dylid paratoi ymateb dros dro ar gyfer yr adegau hynny pan fo rhywun yn holi'n sefydliadau ynghylch caniatâd cynllunio ar safleoedd tir llwyd. Fe ddylai'r ymateb nodi fod safleoedd o'r fath erbyn hyn yn gynefinoedd sy'n flaenoriaeth yng Nghynlluniau Gweithredu Bioamrywiaeth ac fe fydd angen gwneud arolwg ecolegol ohonynt.** Dywedodd Jan y byddai llythyr safonol newydd yn cael ei lunio gan CCGC dros y misoedd nesaf. Mae Dave wedi edrych drwy baragraffau safonol Asiantaeth yr Amgylchedd, ac fe ddylid cynnwys tir wedi'i halogi yn nhudalennau datblygu categori'r cais. | JS & DT |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | *PG17* | **Roedd Pete i edrych pa bryd y byddai TAN5 yn cael ei gyhoeddi. Mae wedi ei gyhoeddi erbyn hyn.**<br>Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru'n mynd i ddarparu hyfforddiant ar TAN5 ar gyfer staff awdurdodau lleol. Gofynnwyd i Diana Reynolds sicrhau bod cynefinoedd OM yn cael eu cynnwys yn yr hyfforddiant.<br>Dave i sicrhau bod Asiantaeth yr Amgylchedd ar lefel y Pencadlys yn ymwybodol o'r cynefin newydd mewn perthynas â datblygu ar safleoedd tir llwyd. | DT |
| | *PG20* | **Roedd Steve i holi'r Adran Materion Gwledig beth yw'r polisi ynglŷn â throi tir yn ôl i fod yn dir amaethyddol.** Mae Steve yn dal i edrych ar hyn ac fe fydd yn cyflwyno crynodeb o'r hyn y mae'n ddarganfod. | SC |
| | *PG33* | **Roedd Richard a Jan i dynnu canllawiau o'r gwaith sydd eisoes wedi ei wneud ar gyfer y safleoedd gwastraff glo (yn ymwneud â chyfeirbwyntiau, cyngor, canllawiau etc.)**<br>Richard i greu crynodeb o'r gwaith sydd wedi ei wneud eisoes. | RW |
| | *PG34* | **Roedd y gweithredu wedi ei nodi'n anghywir ar gyfer Dave i ddarganfod cyfeirnod y llawlyfr ecoleg llechi a chyfeirnod y cyhoeddiad rheoli cynefinoedd OM.** Ar gyfer Jan yr oedd y gweithredu hwn i fod. | JS |
| | *PG35* | **Roedd Pete i gysylltu â Stuart Smith ynghylch cydlynu gwaith y grŵp yma a'r grŵp glaswelltir calaminaraidd**. | PF |
| | *PG36* | **Roedd Pete i siarad â grŵp safleoedd tir llwyd Lloegr ynghylch canllawiau Lloegr ac i holi ynghylch canllawiau ar y cyd ar gyfer y DU ynglŷn â rheoli'r safleoedd yma ar lefel y DU.** Nid oedd Grŵp Cynefinoedd Trefol Rhyng Asiantaethol y DU yn gallu trafod hyn yn eu cyfarfod ym Mis Medi, ac mae'r gweithredu wedi cael ei gario drosodd i'w cyfarfod nesaf ar 9 Rhagfyr. | PF |
| | *PG37* | **Roedd Jan i anfon e-bost at Margaret gyda rhestr o siroedd cymwys a chyswllt gwefan ariannu WREN.** | JS |
| | | Gweithredu newydd o ganlyniad i'r cyfarfod yma: | |
| | | Margaret i nodi bob amser beth yw'r gweithredu, wrth ochr y pwyntiau gweithredu yn y nodiadau. | *PG39*<br>MP |
| | | Cael eitem sefydlog ar Bolisïau ar yr agenda. | *PG40*<br>MP |
| | | Pete i anfon y canllawiau gan Julia Korn ar gysylltiad CGBLl ymlaen at Sorrel | *PG41*<br>PF |
| | | Rhestr o gyfeirnodau perthnasol i gael eu gosod ar ein tudalen ar wefan PBC. | *PG42*<br>MP |
| 5 | **Gosod amcanion a thargedau** | Adolygu'r papur gan Pete Frost a chadarnhau dull y grŵp yma o osod amcanion a thargedau: | |

## Cynnal maint y cynefin

Mae’r gweithredu y mae ei angen i osod targedau yma’n cynnwys:
**1**. Adnabod maint a lleoliad adnodd y cynefin yn gyfan;
Fe ddylid diwygio rhestr prif gategorïau safleoedd tir llwyd fel a ganlyn:

1. Safleoedd cloddio (chwareli tywod a graean, chwareli calch, chwareli gwenithfaen/rhyolit a chwareli llechi)
2. Dociau ac amddiffynfeydd môr
3. Safleoedd dymchwel a diffaith (gan gynnwys ffyrdd a rheilffyrdd segur)
4. Safleoedd gwastraff pyllau glo
5. Safleoedd tirlenwi
6. Safleoedd wedi eu halogi â metel

**2.** Diffinio’r mathau o swbstradau y mae brithwaith o gynefinoedd i’w cael arnynt;
(Dim gormod o fathau, gan y gallai fynd yn rhy gymhleth)
**3**. Adnabod maint a lleoliad safleoedd ar bob math o swbstrad;
**4.** Adnabod safleoedd unigol sydd yn bwysig o ran rheoli cyson.

Pete i ail ddrafftio’r papur i nodi y dylem fod yn edrych ar y cynefinoedd ar sail ranbarthol.

*PG43*

## Gwella Cyflwr

Mae’r gweithredu y mae ei angen i osod targedau yma’n cynnwys:
1. Diffinio faint o frithwaith o gynefinoedd sy’n ddymunol yng Nghymru;
2. Cyfrif y gyfran o’r holl gynefin sy’n rheoli ei hunan;
3. Adnabod y safleoedd a fydd yn cael budd o waith rheoli, yn hytrach na chael eu haberthu i olyniaeth neu ddatblygiad dynol.

Pete i ychwanegu paragraff yn y fan yma’n diffinio cyflwr ffafriol brithwaith o gynefinoedd agored a blaenoriaeth, gan y byddai cynefinoedd eraill yn cael blaenoriaeth mewn rhai achosion. *PG44*

## Ymestyn y Cynefin

Mae’r gweithredu y mae ei angen i osod targedau yma’n cynnwys:
1. Diffinio faint o frithwaith o gynefinoedd sy’n ddymunol yng Nghymru;
2. Cyfrif faint o safleoedd newydd y bydd eu hangen yn lle’r rhai a fydd yn anaddas oherwydd olyniaeth neu ddatblygiad dynol.

Pete i ychwanegu paragraff gydag enghreifftiau megis cloddio safleoedd tirlenwi.

*PG45*

## Adfer cynefin

Mae’r gweithredu y mae ei angen i osod targedau yma’n cynnwys:
1. Diffinio faint o frithwaith o gynefinoedd sy’n ddymunol yng Nghymru;
2. Diffinio lleoliad dymunol brithwaith o gynefinoedd ar fathau gwahanol o swbstrad drwy Gymru;
3. Adnabod ardaloedd sy’n ddiffygiol mewn brithwaith o gynefinoedd ar y swbstradau sy’n ddymunol;
4. Adnabod safleoedd addas ar gyfer adfer o fewn ardaloedd diffygiol.

Fe fydd Pete yn addasu’r papur a’i ddosbarthu, gan ei godi yng ngrŵp Cadeiryddion CGB.

| | | | |
|---|---|---|---|
| 6. | **Cyngor a Chanllawiau** | (Adolygu'r cyngor a'r canllawiau ar reoli safleoedd tir llwyd a chynnig gweithredu i lenwi unrhyw fylchau.) Mae gan www.ecoregen.org.uk enghreifftiau o adfywio safleoedd ôl ddiwydiannol yn ecolegol<br><br>Pawb i gynnig enghreifftiau o gynlluniau rheoli safle a chanllawiau ar gyfer y safleoedd yma. Yn benodol canllawiau ar gyfer rheoli cynefinoedd OM ar dir a oedd cynt wedi ei ddatblygu. Fe allai'r rhain hefyd fod yn rhan o'r rhestr gyfeiriol y soniwyd amdani'n gynharach ar wefan PBC. | <br><br><br><br>*PG46* |
| 7. | **Adnoddau** | (Adnabod ffynonellau ar gyfer adnoddau i gyflawni ein hamcanion a'n targedau).<br>1. Mae angen adnoddau arnom i gasglu ynghyd ganllawiau rheoli cynefinoedd OM ar dir a oedd cynt wedi ei ddatblygu. Fe fyddai'n rhaid i hon fod yn astudiaeth ddesg.<br>2. Angen adnoddau i ddarganfod maint, lleoliad a chyflwr safleoedd brithwaith o gynefinoedd agored presennol.<br><br>Fe fydd Jan yn paratoi cais am arian gan y Cyngor Cefn Gwlad (16-20 mil) er mwyn i'r grŵp ddod o hyd i'r gronfa wybodaeth sy'n diffinio maint a lleoliad y cynefinoedd. (Coladu haenau SGDd ac edrych ar ffotograffau o'r awyr, mapiau OS, Data Cam 1, data synhwyro o bell a gwybodaeth leol).<br><br>Steve i anfon y cyswllt at dîm SGDd Llywodraeth Cynulliad Cymru.<br><br>Y flaenoriaeth gyntaf fydd **maint a lleoliad** ac yna'r **cyflwr** fydd yr ail (rhywogaethau ar y safle, ysgogi arolygon o greaduriaid di-asgwrn-cefn).<br><br>Fydd y grŵp ddim yn gwneud cais am adnoddau ar gyfer gwaith maes eleni. Y flwyddyn nesaf mae'n debyg.<br><br>Dylid ymchwilio i ddwy ffynhonnell bellach o ariannu: LlCC a DEFRA. Fe fydd Pete yn ymchwilio i'r rhain.<br><br>Nodwyd ei bod yn debygol y byddai'r ddyletswydd yn Neddf yr Amgylchedd Naturiol a Chymunedau Gwledig yn cynnwys yr Awdurdod Glo o ran gwarchod bioamrywiaeth; posibl hefyd y byddai arian sylweddol gan yr Awdurdod i gwrdd â'r ddyletswydd honno. Nigel i ymchwilio. | *PG47*<br><br>*PG48*<br><br>*PG49* |
| 8. | **Dull yr Ecosystemau** | Cafwyd cyflwyniad gan Pete am ddull yr Ecosystemau. Mae angen cadw'r dull hwn mewn cof wrth gynhyrchu ein canllawiau. | |
| 9. | **Adolygu aelodaeth** | Cytunodd y Grŵp y dylid gwahodd Rebecca Sharp, Ecolegydd Sir Castell Nedd Port Talbot, fel aelod. | |
| 10. | **UFA a Dyddiad y cyfarfod nesaf** | Fe fydd y cyfarfod nesaf rywbryd yn ystod pythefnos olaf Mis Ionawr. Margaret i anfon dyddiadau. | |